

## **Y Gronfa Byw'n Iach ac Egnïol**

### **Cwestiynau Cyffredin**

#### **Beth yw'r Gronfa Byw'n Iach ac Egnïol?**

- Mae'n gronfa fuddsoddi sy'n ceisio gwella iechyd meddyliol a chorfforol pobl drwy eu helpu neu eu galluogi i fyw bywydau iach ac egnïol.
- Mewn ffordd integredig, mae'n cyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bond Llesiant a Chronfa Her ar gyfer Chwaraeon.
- Bydd yn cael ei chyflawni drwy bartneriaeth strategol rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru.
- Bydd cam cyntaf y Gronfa yn cefnogi prosiectau sy'n rhoi asedau cymunedol ar waith - pobl a lleoedd, i roi sylw i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl nad ydynt yn cyflawni'r lefelau sy'n cael eu hargymhell o weithgarwch corfforol.

#### **Pam cyflwyno cronfa newydd?**

- Er mwyn wynebu'r her o fod yn Gymru iachach, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i roi sylw i'r heriau sydd o'n blaen nawr ac atal problemau rhag codi yn y dyfodol.
- Mae'r Gronfa Byw'n Iach ac Egnïol newydd yn enghraifft ymarferol o'r ffordd y mae'r egwyddorion hyn yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r Gronfa'n gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac wedi cael ei chreu drwy gysylltu cyllidebau a blaenoriaethau i gyflawni ein hamcanion 'Cymru Iachach'. Bydd prosiectau llwyddiannus yn cynnwys y bobl y maen nhw'n ceisio'u helpu, ac yn seiliedig ar eu hanghenion i fyw bywydau hapusach, iachach.

#### **Ble fedra i gael rhagor o wybodaeth am feini prawf y Gronfa a phryd i gyflwyno cais?**

- Bydd rhagor o fanylion am y ffordd y bydd y Gronfa'n gweithredu a'r hyn y byddwn yn disgwyl ei weld mewn ceisiadau ar gael dros y misoedd nesaf. Mae sioeau teithiol yn cael eu trefnu mewn gwahanol rannau o Gymru ar gyfer mis Medi a bydd gwybodaeth ar sut i gofrestru ar gyfer y sioeau teithiol hyn ar gael yn fuan.

### Pryd fydd disgwyl i'r prosiectau gychwyn?

- Hysbysir ymgeiswyr llwyddiannus ym mis Chwefror 2019, gyda'r nod o weld y prosiectau'n cychwyn ym mis Ebrill 2019. Dylid defnyddio'r cyfnod rhagarweiniol hwnnw i baratoi unrhyw brosesau rheoli prosiect neu strwythurau rheoli ychwanegol, neu i gael gafael ar neu ddsbarthu adnoddau.

### Beth yw amcanion y Gronfa Byw'n Iach ac Egniol?

- Y prif nod yw gwella iechyd meddyliol a chorfforol pobl drwy eu galluogi i fabwysiadu ffyrdd o fyw iach ac egniol. Bydd yn ceisio cynyddu gweithgarwch corfforol, rhoi sylw i faeth gwael, torri cyfraddau ysmegu a chyfyngu ar oryfed alcohol.
- Bydd Cam 1 y Gronfa Byw'n Iach ac Egniol yn cefnogi prosiectau sy'n cryfhau ac yn datblygu asedau cymunedol (fel grwpiau neu glybiau chwaraeon/cymunedol, ysgolion a gweithleoedd) er mwyn:
  - Cynyddu'n sylweddol y lefelau gweithgarwch corfforol ymysg y rhai sydd ar hyn o bryd yn llonydd neu â lefelau isel iawn o weithgarwch corfforol
  - Gwella lefelau llesiant meddyliol drwy annog rhyngweithio cymdeithasol a chynyddu mynediad at fannau gwyrdd, melyn neu las.

### Pa fath o brosiectau sy'n debyg o gael eu hystyried?

- Prosiectau sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a rhwystrau mewn un neu fwy o'r grwpiau canlynol:
  - Plant a phobl ifanc
  - Pobl ag anabledd neu salwch hirdymor
  - Pobl sy'n economaidd anweithgar neu sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig
  - Pobl hŷn a'r rhai sy'n agos at oedran ymddeol o'r gwaith.

### Faint o Gyllid sydd ar gael?

Bydd gan Gam 1 y Gronfa £5m i fuddsoddi dros 3 blynedd, o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2022. Bydd isafswm ac uchafswm y swm y gall sefydliadau ymgeisio amdano yn cael eu rhannu mewn sioeau teithiol ym mis Medi.

### Pwy all ymgeisio am gyllid y Gronfa Byw'n Iach ac Egniol?

Anogir cyrff a sefydliadau statudol ac anstatudol sydd â'r strwythur a'r gallu i gyflawni'r amcanion i ymgeisio.

## Sut fydd prosiectau'n cael eu dewis?

- Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu cefnogi am uchafswm o 3 blynedd, ac fe ddaw'r cyllid i ben ddiwedd mis Mawrth 2022. Bydd angen i geisiadau llwyddiannus ddarparu achos busnes sy'n dangos sut y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio a sut y bydd y prosiect yn cael ei ariannu yn y dyfodol. Bydd angen dangos:
  - Tystiolaeth glir o'r angen am y prosiect, naill ail o ganlyniad i ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod datblygu a/neu drwy gyd-fynd â Chynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
  - Sut y bydd y prosiect yn bodloni'r angen a nodwyd.
  - Tystiolaeth gref bod gan yr ymgeisydd arweiniol y strwythurau llywodraethiant a'r prosesau rheoli angenrheidiol yn eu lle i drafod â phartneriaid eraill a sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni'n effeithiol.
  - Tystiolaeth gref o'r gwaith partneriaeth rhwng y sector statudol a phartneriaid eraill, gan gynnwys tystiolaeth gref o gydweithio gyda grwpiau cymunedol a'r cyhoedd i ddatblygu'r cynnig.
  - Bod y prosiect yn werth da am arian o ran nifer y bobl y cyrhaeddwyd atynt o gymharu â swm y buddsoddiad angenrheidiol, a bod achos busnes clir dros barhau â'r prosiect y tu hwnt i'r cyllid cychwynnol. Tystiolaeth hefyd o'r gallu i ehangu'r prosiectau i fodloni anghenion y boblogaeth ehangach os oes angen.
  - Bod y prosiect yn ystyried datblygu dulliau newydd o hwyluso ffordd egniol o fyw drwy edrych ar ffyrdd creadigol o ddefnyddio asedau cymunedol (pobl a lleoedd) a/neu drwy fanteisio ar dechnoleg ddigidol.
  - Gall prosiectau fod yn gynigion newydd neu adeiladu ar brosiectau bach sydd eisoes yn bodoli gan ehangu eu cyrhaeddiad.

## Sut fydd prosiectau'n cael eu mesur?

- Bydd cyfres fanwl o ddangosyddion yn cael eu datblygu a'u rhannu gydag ymgeiswyr posib yn y sioeau teithiol ym mis Medi. Y disgwyliadau sylfaenol yw i'r prosiectau ddangos tystiolaeth o'r canlynol:
  - Cynnydd yn nifer y cyfranogwyr sy'n bodloni'r dangosyddion gweithgarwch corfforol a gytunwyd.
  - Cynnydd yn nifer y cyfranogwyr sy'n adrodd am newid cadarnhaol yn eu llesiant meddyliol.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Anogir ymgeiswyr posib i ddechrau trafod â phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn ystyried prosiectau sy'n cyflawni nod cyffredinol cam 1 y gronfa. Mae'n hanfodol dechrau trafod â'r gymuned leol a grwpiau cymunedol yn gynnar ac fe fydd angen i'r ceisiadau ddangos tystiolaeth o'r cydweithio a'r ymgynghori.

## Beth yw'r amserlen?

- Bydd sefydliadau sydd wedi cofrestru eu manylion drwy'r blwch post iach ac egnïol neu gyda swyddogion yn y sioeau teithiol yn cael gwahoddiad i fynegi diddordeb tua diwedd mis Medi. Bydd y ceisiadau mynegi diddordeb llwyddiannus yn cael gwahoddiad i gyflwyno manylion pellach er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ganol mis Chwefror 2019.